Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Llun, 9 Mawrth 2009**

Teitl: Her £2 filiwn i brifysgolion

Mae cronfa o £2 filiwn sydd â'r nod o annog prifysgolion Cymru i helpu unigolion a busnesau i oroesi'r trafferthion economaidd presennol wedi cael ei lansio.

Bydd y Fenter Cymorth Economaidd yn annog sefydliadau addysg uwch i chwarae eu rhan mewn gwella rhagolygon gwaith myfyrwyr sydd newydd raddio a graddedigion sydd wedi colli swyddi'n ddiweddar neu sydd mewn perygl o'u colli.

Bydd hefyd yn cefnogi sefydliadau sy'n cynnig helpu cwmnïau drwy ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd addysg uwch.

Bydd sefydliadau sy'n sicrhau arian o'r gronfa yn gallu cynnig pecynnau o hyfforddiant, datblygiad a chymorth ymarferol i unigolion a busnesau i wella sgiliau a hybu arloesedd.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Bydd y gronfa yn galluogi prifysgolion a cholegau Cymru i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd wrth iddyn nhw godi ac i dargedu meysydd lle mae angen cymorth fwyaf.

"Rydym bob amser yn pwysleisio bod toreth o wybodaeth ac arbenigedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru, ac mae'r arafu economaidd presennol yn

golygu bod angen i Gymru fanteisio ar yr adnodd gwerthfawr hwn fwy nag erioed."

Dywedodd Jane Hutt, y Gweinidog Addysg: "Wrth i ni wynebu sialensiau yn yr economi byd-eang, mae'n hollbwysig i ni wneud popeth posib i helpu busnesau ac unigolion i gael yr hyfforddiant a sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae cyhoeddi'r Fenter Cymorth Economaidd yn newyddion ardderchog i Gymru. Rydw i'n sicr y bydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i raddedigion diweddar wrth iddynt chwilio am waith."

Bydd y fenter, sy'n annog datblygu partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau â chyrff eraill, yn derbyn arian cyfatebol gan y sefydliadau addysg uwch a phartneriaid eraill sy'n cymryd rhan, a bydd y gweithgareddau'n dechrau ym mis Mehefin 2009.

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Sefydliadau addysg uwch (SAUau) a'r economi

Mae'r manylion llawn, gan gynnwys gwahanol sefyllfaoedd lle y gall yr arian gael ei ddefnyddio, ar gael yng nghylchlythyr W09/06HE ar ein gwefan www.hefcw.ac.uk o dan 'cyhoeddiadau - cylchlythyrau'.

Y Fenter Cymorth Economaidd

Dylai cyllid a dderbynnir drwy'r Fenter Cymorth Economaidd gael ei ddefnyddio i adeiladu ar weithgareddau presennol y partneriaid neu SAUau unigol dan sylw. Ni ddylai cynigion gystadlu â, disodli, dyblygu na chymryd lle unrhyw raglenni presennol a weithredir gan CCAUC, SAUau neu gyrff eraill.

Gall cyllid o gronfa'r Fenter Cymorth Economaidd gael ei ddefnyddio at y pwrpasau a ganlyn:

- Darparu **cymorth ar gyfer unigolion sydd newydd golli eu swyddi** i wella eu siawns o gael swyddi newydd, drwy gryfhau cyngor a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad addysg uwch.

- Rhoi **cymorth i raddedigion diweddar** i gyrchu cyngor, hyfforddiant a phrofiad gwaith er mwyn eu helpu i ddod o hyd i waith.

- Darparu cymorth, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad, i helpu i **ddiogelu swyddi** unigolion sydd ar hyn o bryd mewn gwaith.

- Rhoi cymorth i fusnesau i **uwchraddio sgiliau eu gweithlu** gan roi iddynt y medrau a chyfleoedd datblygu priodol i reoli'r her economaidd.

- Rhoi cymorth i fusnesau, yn enwedig mentrau bach i ganolig, drwy ddarparu **mynediad syml a chydgysylltiedig i wybodaeth ac arbenigedd addysg uwch** er mwyn gwell perfformiad y busnes.

- Rhoi cymorth i fusnesau i ddefnyddio hyfforddiant a datblygiad fel ffordd o **reoli busnes sy'n crebachu**.

- Galluogi busnesau i fanteisio ar gysylltiadau presennol SAUau â'r Cynghorau Sgiliau Sector yn unol â'u blaenoriaethau.

Enghreifftiau o waith sydd eisoes yn cael ei wneud mewn SAUau:

- Mae SAUau yn helpu graddedigion tuag at gyflogaeth drwy ddarparu **gwybodaeth ac arweiniad proffesiynol am yrfaoedd**.

- Mae SAUau yn **ymgorffori addysg sy'n berthnasol i yrfaoedd** o fewn cwricwla, er enghraifft, mae o leiaf 150 o gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig presennol yn SAUau Cymru yn cynnwys modiwlau ar sgiliau menter.

- Mae'r rhaglen GO Wales (a gyllidir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) yn helpu graddedigion i ddod yn fwy cyflogadwy drwy gyfrwng **lleoliadau ar gyfer myfyrwyr a graddedigion mewn mentrau bach i ganolig lleol**.

- Mae GO Wales yn darparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau bach i ganolig yng Nghymru i **ddatblygu eu staff graddedig ymhellach**.

- Mae GO Wales wedi cael ei ehangu'n ddiweddar i gynnwys **Rhaglen Academi Graddedigion** ar gyfer graddedigion newydd gymhwyso a graddedigion wedi'u tangyflogi i'w gwneud yn fwy cyflogadwy a'u helpu i gymhwyso eu sgiliau lefel uwch at yr economi Cymreig.

- Bydd Go Wales hefyd yn cynnwys **Rhaglen Gweithwyr Annibynnol** i'r rheiny sy'n dymuno cymryd y camau cyntaf tuag at weithio ar eu liwt eu hunain.

- Mae SAUau yn helpu i **uwchraddio sgiliau'r gweithlu** mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, drwy gyfrwng datblygiadau Ymgyrraedd yn Ehangach wedi'u cyllido gan CCAUC sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch.

- Gweithio gyda **chyflogwyr a'r Cynghorau Sgiliau Sector i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau**.

- Mae gan SAUau Cymru amrywiaeth helaeth iawn o gysylltiadau â **chwmnïau o bob maint**, er mwyn hybu'r economi gwybodaeth drwy gyfrwng gweithgareddau ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio.

Nodiadau i Olygyddion

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant cychwynnol athrawon** ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.